

HANES
BRWYDR NAVERINO

GAN

DAVID RICE, Bragwr, Llansantffread.



Ymladdwyd y Frwydr hon yn Môr y Caneldir yr 20fed
o Hydref, 1827. tan lywodraeth Sir Edward Codrington,
Pen-llyngheswr Lloegr, ag 11 o longau : a Louis Count de
Heiden, Is-lyngheswr Rwssia, ar 8 o longau ; a H. de
Rigny, Llyngheswr Ffraince, â 7 o longau, 26 o gwbl, yn
erbyn 200 o longau'r Twrks, 70 o longau rhyfel a'r rhest yn
fasnachwyr a throsglwydwyr : heblaw dwy fatter y fawr,
neu furiau tanlyd oddiar y tir y rhai hyn oll oedd dan
lywodraeth Mahorem Bey, Pen-llyngheswr y twrks,
Ibrahim Pacca yw'r bwystfil y mae'r gân yn son amdano,
yr hwn sydd Archoffeiriad yn eglwys Mesca, sef un o
weinidogion y Duw Mahomet yn gystal a Maeslywydd,
(Field Marshall;) a than lywodraeth y Pacca y mae'r holl
Ianastra yn sael ei wneuthur ar fywydau a meddiannau y
Groegiaid ar hyd y gwledydd y mae'r gân yn trybwyll
am danynt.

Argraffwyd yn Abertawy. 1828.

CLYWCH hanes am y frwydyr mewn gefriau cywir clir,
 Rhwng cyngrairwyr Brydain a gwyr y tyrbau dur,
 Yr ugeinfed dydd o Hydref bu yno chwarae chwith,
 Bydd rhai o wyr yr Otto yn cofio am dano byth.

'Roedd Rwssia anrhydeddus, a brodyr browys Ffrainge,
 A'n Brenin Sior grasusaf yn flaenaf ar y fainge,
 Yn erbyn y barbariaid o blaid y Groegiaid gwan,
 Sydd tan eu dirfawr drallod yn gorfod hyn o gam.

A nhwythau meibion Modon sydd tan y creulon gri,
 A dinas y Corinthiaid yn lleiddiad gan y llu.

'Does gyffiniau Argos yn aros cyfled cwis,
 Heb naill ai gwir ai gwagedd yn gorwedd tan ei erwys.

Pan daeth y camwedd creulon ger bron y cyfiawn dad,
 Daeth dial o'i drugaredd yn rhyfedd ar eu gwlad :
 Yn havan Navarino dechreuodd daro'n drwm,
 O bwys bwletu canon a'r pelau tan a'r plwm.

Mae'r gair yn tystiolaethu o lan brophwydi'r nen,
 Pan ddel y mil blynyddau, a'i biliau i gyd i ben,
 Bydd pwnio ar y pagan a thori pen y Pab,
 A greddfau yn y Groegiaid i gredu yn y Mab.

Rhag rhedeg mwg mewn rhyfsg yn addug ar y gwaith,
 Mi dreiaf dynn dyben ar hyn o 'sgrifen faith,
 Mi droiaf at y frwydr a'i blaen achlysur hi,
 A'r canlyniadau chwervon o'r achlysuron fu.

Pan aeth yr hen llyngheswr i harbour Navaria,
 Heb feddwl am ryfela na gwrthddadleua dim,
 Danfonai'r Pilat parchus yn bwyllys yn y bad,
 Ar benaith y Barbariaid sy'n gwylied dros eu gwlad.

Gan erfen ar ei fawredd er mwyn trugaredd Duw,
 'Roi lle i'r Groegiaid gweinïon a'u gwagedd gwirion fyw,
 Ond croesaidd iawn fu'r greso a ddarfu iddo gael,
 Fe laddwyd lladmer Lloeger o'i bwrdd a baner bâl.

Pan welodd bechgyn Brydain eu brodyr dan eu briw,
 Trwy doriad cyfraith brenin a deg gorchymyn Duw,
 Fe ddywedai'r pen-llyngheswr mewn dadwr dygn dwys,
 Mi dala'r pwyth i'r pagan beth bynag fyddo'r pwys.

Er nad wyf ond ymdeithydd yn hyn o wledydd pell,
 Mi baraf i'r barbariaid fyth y yfied taro eu gwell,

Ni chaiff na'r Twrki diglhon na'r Aiphtiaid duon pewr,
A biso ar bared heno i wel'd goleuo'r wawr.

Fe bostiwyd llongau Brydain mewn trefn ol a blaen,
Fel nad oedd lle i'r barbariaid i ffoi nag arben tân.
Un round o fwrdd yr Asia roed i Moharem Bey,
Pan 'raeth e lawr i'r gwaelod er syndod pawb trwy'r bay.

A'r ddwy oedd nesaf atto eu taro ar un tan,
Ar dair mil o drigolion yn fawrion ac yn fan,
Bu gorfod rhoddi cyfrif ger bron ei profwr pryn,
A rhoi'r farewell ddiweddaf i bob anwylaf ddyn.

Ar fwrdd yr Asia newydd roedd arwydd hylwydd hy,
Yn dangos dull y dalaith a'n pen llywodraeth ni,
A phen llyngheswr Lloegr a'i faner yn y fan,
A rhes o longau Rwssia a roddes Dau'n ei ran.

Nes gorfod grym y frwydr, mae'n sicr iawn y sail,
Nad oes mewn hanesyddiaeth wybodaeth am eu hail;
Fe danwyd ar yr aswy, fe danwyd ar y de,
Nes doedd y caerau'n cryni byd gyrau eitha'r dre'.

Fe ddrylliwyd tref Naverin yn 'sgymyn yn y sgore,
Fe gurwyd lawr y caerau a muriau glan y mor.
Arswydus sw'n y saethau yn digaloni'r dre',
A'r holl elfenau'n lludw, a mwg yn llanw'r lle.

Nes gorfod gwaeddu allan O! Sultan, neu Sinor,
Sef ceidwad mawr en henaid eu harbed ar y mor,
Ond nid oedd Mahomet fuddar er maint eu trydar trist,
Yn medru mwy mo'u gwared na chlywed ar un glust.

Dau cant ond wyth o longau a lethwyd yn y dwr,
Heb safio bawd na bigwrn na bywyd mab na gwr,
Rhan fwyaf lawr i'r gwaelod a'r rhest yn 'styllod man,
A rhai ar daaeth yn llaprau a'r lleill yn flamiau tan.

Bu'r amryfusedd yma i Rwssia'n lladdfa lym,
I roddi maes ei cyfrif nid wyf yn medru dim,
Cadd Ffraince gan wyr yr Otto eu taro ar bob tant,
Fe laddwyd pedwar ugain, fe glwyfwyd pedwar cant.

Y Glasgo glws a'r Dartmouth aeth ma's o Blymouth
Y Cambereian hefyd a'r Talbot tan 'r bound, [sound,
Y Rose a'r Philomela, mi welaf yn eu mysg,
Fy moddwl mae'r Misskitto, a'r brasa i gyd yw'r Brisk.

Er cael o'r fuddygoliaeth a rodd rhaglaniaeth Duw,
Fe lladdwyd yn y frwydr y morwyr glana 'n fyw,
Er cryfed oedd eu cariad a'u bwriad dros ei gwlad,
Nid ydyw rhydiau angau yn rhebeg byth yn rhad.

Aeth angau dygu duen a thrigain gwr a phump,
Mae lliaws heddyw yn uno i gwyno am eu cwmp;
A chant a phedwar ugain, a phump a deg a dau,
Sydd yn meddyg dy malta, mi glywa tan ei clwy.

Aeth pedwar o'n capteniaid i dragywyddoldeb draw,
Gwibydded Ynys Brydain i'n brodyr ni gaeth braw,
Capten Lewis Davies * a Bathyrst o'r un cud,
A Chapten Stevens stofwyd yn mhlith y medlau mud.

Fe ddwedodd Capten Davies wrth orphwys yn ei grid
'Rwy'n marw mewn amynedd o ran anrhydedd drud.
Ond eiddo Duw yw rhyfel, a dirgel gynghor Duw,
Sy'n lladd fo'n ewylllysio a chadw syno'n fyw.

Capten Bel a gwmpodd ar fwrdd yr Asia lawr,
Aeth Bosen braf a'r Pilat i dragywyddoldeb mawr;
At hefyd wyth Lifftenant y daeth y warant ddu,
A llawer iawn o forwyr a sawdwyr hefyd sy.

Wedi rhydio'r afon i dragywyddoldeb maith,
Lle nid oes taffu arfau na diwedd ar y daith,
Mae'r d'rogan ma's ar dreigl am herwy 'n barhan,
Mae'n yn rhaid i bob aradwr i fedi o'r hyn fo'n hai.

Mae'n debyg iawn ceir gweled llu o'r barbariaid brith,
Ar faesydd Twrki 'n trengi heb hau na medi byth.
Mae holl bwrerau'r deyrnas o bwrpas, i bartoi,
Yn nghyd a Ffraince ffyddlona, a Rwssia draw'n ddi droi.

Yn erbyn swyddiir Sultan o eiddo Satan Swrth,
Prysured eu banerau i gyfyngderau a gwarth,
Ond Duw a gadwo'r brenin a'i bras lywodraeth ef,
A phawb o Ynys Brydain tan aden Brenin nef,
Fel caffo lleoedd Lloeger a'u baner fod yn ben
A'r Twrks i garu'r Groegiaid a dywedod pawb Amen.